# Emynau a Darlleniadau

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

Cymun Bendigaid ar Gân

**Y Deuddegfed Sul wedi'r Drindod** • 23 Awst 2026

**Gosodiad**
**Gwasanaeth Cymun yn C,** William Mathias (1934-1992)

**Llywydd**
Canon Angela

**Pregethwraig**
Canon Tracy

## Emyn Agoriadol



**O tyred, Arglwydd mawr,**
**dihidla o'r nef i lawr**
**gawodydd pur,**
**fel byddo'r egin grawn,**
**foreddydd a phrynhawn,**
**yn tarddu'n beraidd iawn**
**o'r anial dir.**

**Mae peraroglau gras**
**yn taenu o gylch i maes**
**awelon hedd;**
**estroniaid sydd yn dod**
**o'r pellter eitha' 'rioed,**
**i gwympo wrth dy droed**
**a gweld dy wedd.**


**Mae tegwch d'ŵyneb-pryd**
**yn maeddu oll i gyd**
**sy ar ddaear las;**
**mae pob rhyw nefol ddawn**
**oll yno'n gryno lawn,**
**yn tarddu'n hyfryd iawn**
**o'th glwyfau i maes.**

**Geiriau**
William Williams, Pantycelyn (1717-1791)
**Cerddoriaeth | "Malvern"**
Henry John Gauntlett (1805-1876)

## Colect

Hollalluog a thragwyddol Dduw, sydd bob amser yn barotach i wrando nag ydym ni i weddïo ac yn arfer rhoi mwy nag a ddeisyfwn na'i haeddu: tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddau inni'r pethau y mae ein cydwybod yn eu hofni a rhoi inni'r pethau daionus hynny nad ydym yn deilwng i ofyn amdanynt, ond trwy haeddiannau a chyfryngdod Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

## Salm 138



℣ A'm holl galon y'th glodforaf,
ac yngwŷdd y duwiau'th folaf.

℟ **A'm holl galon y'th glodforaf,**
**ac yngwŷdd y duwiau'th folaf.**

Clodforaf di â'm holl galon, canaf fawl i ti yng ngŵydd duwiau. Ymgrymaf tuag at dy deml sanctaidd, a chlodforaf dy enw am dy gariad a'th ffyddlondeb, oherwydd dyrchefaist dy enw a'th air uwchlaw popeth. ℟

Pan elwais arnat, atebaist fi, a chynyddaist fy nerth ynof. Bydded i holl frenhinoedd y ddaear dy glodfori, O Arglwydd, am iddynt glywed geiriau dy enau; ℟

Bydded iddynt ganu am ffyrdd yr Arglwydd, oherwydd mawr yw gogoniant yr Arglwydd. Er bod yr Arglwydd yn uchel, fe gymer sylw o'r isel, ac fe ddarostwng y balch o bell. ℟

Er imi fynd trwy ganol cyfyngder, adfywiaist fi; estynnaist dy law yn erbyn llid fy ngelynion, a gwaredaist fi â'th ddeheulaw. Bydd yr Arglwydd yn gweithredu ar fy rhan. O Arglwydd, y mae dy gariad hyd byth; paid â gadael gwaith dy ddwylo. ℟

**Cerddoriaeth**
Henry Purcell (1659-1695); Sam Jones

## Rhufeiniaid 12:1-8

Am hynny, yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol. A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef. Oherwydd, yn rhinwedd y gras y mae Duw wedi ei roi i mi, yr wyf yn dweud wrth bob un yn eich plith am beidio â'i gyfrif ei hun yn well nag y dylid ei gyfrif, ond bod yn gyfrifol yn ei gyfrif, ac yn gyson â'r mesur o ffydd y mae Duw wedi ei roi i bob un. Yn union fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. A chan fod gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hynny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â'th ffydd. Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os addysgu yw dy ddawn, arfer dy ddawn i addysgu, ac

os cynghori, i gynghori. Os wyt yn rhannu ag eraill, gwna hynny gyda haelioni; os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn dangos tosturi, gwna hynny gyda llawenydd.

## Mathew 16:13-20

Daeth Iesu i barthau Cesarea Philipi, a holodd ei ddisgyblion: "Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?" Dywedasant hwythau, "Mae rhai'n dweud Ioan Fedyddiwr, ac eraill Elias, ac eraill drachefn, Jeremeia neu un o'r proffwydi." "A chwithau," meddai wrthynt, "pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Atebodd Simon Pedr, "Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw." Dywedodd Iesu wrtho, "Gwyn dy fyd, Simon fab Jona, oherwydd nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn iti ond fy Nhad, sydd yn y nefoedd. Ac 'rwyf fi'n dweud wrthyt mai ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni. Rhoddaf iti allweddau teyrnas nefoedd, a beth bynnag a waherddi ar y ddaear a waherddir yn y nefoedd, a beth bynnag a ganiatei ar y ddaear a ganiateir yn y nefoedd." Yna gorchmynnodd i'w ddisgyblion beidio â dweud wrth neb mai ef oedd y Meseia.

## Emyn yr Offrwm



**Cofia'r newynog, nefol Dad,**
**filiynau llesg a thrist eu stad**
**sy'n llusgo byw yng nghysgod bedd,**
**ac angau'n rhythu yn eu gwedd.**

**Rho ynom dy dosturi di,**
**i weld mai brodyr oll ŷm ni:**
**y du a'r gwyn, y llwm a'r llawn,**
**un gwaed, un teulu drwy dy ddawn.**

**O gwared ni rhag in osgoi**
**y sawl ni ŵyr at bwy i droi;**
**gwna ni'n Samariaid o un fryd,**
**i helpu'r gwael yn hael o hyd.**

**Dysg inni'r ffordd i weini'n llon**
**er lleddfu angen byd o'r bron,**
**rhoi gobaith gwir i'r gwan a'r prudd,**
**ac archwaeth dwfn at faeth y ffydd.**

**Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,**
**d'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;**
**nid digon popeth hebot ti:**
**bara ein bywyd, cynnal ni.**

**Geiriau**
Tudor Davies (1923-2010)
**Cerddoriaeth | "Arizona"**
Robert Henry Earnshaw (1856-1929)

## Emyn Ôl-Gymun



**Gorfoleddwn heddiw**
**â moliannus lef,**
**rhown yn ewyllysgar**
**fawl mewn anthem gref:**
**testun ein llawenydd,**
**gwrthrych pur ein cân**
**tra bo einioes ynom**
**fyddo'r Iesu glân.**

***Gorfoleddwn heddiw;***
***Crist yw sail ein cân;***
***unwn yw glodfori***
***bawb yn ddiwahân.***

**Gorfoleddwn ynddo,**
**daeth o'r nef in byd;**
**cymerth arno'n natur,**
**dug ein beichiau i gyd;**
**drylliwyd ef o'i wirfodd,**
**rhoddwyd arno'n pla;**
**cyfiawn was yr Arglwydd,**
**hwn a'n llwyr lanha.**

**Gwnaeth efe ei feddrod**
**gyda'r anwir rai,**
**ond fe droes lifeiriant**
**angau'n fythol drai:**
**ar y trydydd bore**
**daeth yn rhydd o'i fedd**
**ag arwyddion concwest**
**ar ei ddwyfol wedd.**

**Iesu a gyfodwyd,**
**rhyfedd wyrth ein Duw,**
**testun diolch bythol**
**i holl ddynol-ryw;**
**diorseddwyd pechod,**
**cafodd angau glwy':**
**byw yw'r neb a gredo**
**yn yr Iesu mwy.**

**Geiriau**
Elwyn Price Howells (1920-1999)
**Cerddoriaeth | "Rachie"**
Caradog Roberts (1878-1935)

Atgynhyrchir deunydd yma o dan CLL 280874.
Material here is reproduced under the CLL 280874.